**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 15 Chwefror 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | W Evans |
| D H Hopkins | A S Lewis | C E Lloyd |
| J A Raynor | M Thomas | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Francis-Davies

## 123. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd A S Lewis fudd personol yng Nghofnod 131 “Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2018/2019-2021/2022”;

2) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor fudd Personol a Rhagfarnol yng Nghofnod 136 “Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol” a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried;

3) Datganodd y Cynghorydd M Thomas fudd personol yng Nghofnod 136 “Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol”.

## 124. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 125. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â'r gyllideb. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Roedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiwn canlynol:

1) Gofynnodd Arthur Rogers y cwestiwn canlynol mewn perthynas â Chofnod 127 “Adolygiad blynyddol o daliadau (Gwasanaethau Cymdeithasol) 2018-2019”:

*"I ba raddau y mae dadansoddiad cost/budd Abertawe yn mynd ar gyfeiliorn o brofiadau awdurdodau eraill a pham?"*

Nododd Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 126. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan Gynghorwyr mewn perthynas â'r gyllideb. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Roedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiwn canlynol:

1) Gofynnodd y Cynghorydd P M Black y cwestiwn canlynol mewn perthynas â Chofnod 131 “Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2018/2019-2021/2022”:

   *"Os caiff ysgol ei hadeiladu gan ddefnyddio’r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ac mae’n mynd i ddwylo'r derbynnydd ar ôl iddi gael ei chwblhau, fel y digwyddodd yn achos Carillion, beth sy’n digwydd i’r ased (yr ysgol)?”*

   Nododd Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 127. Adolygiad blynyddol o daliadau (Gwasanaethau Cymdeithasol) 2016/17.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn ceisio adolygu newidiadau i Bolisi Codi Tâl y cyngor (y gwasanaethau cymdeithasol) a chytuno ar restr daliadau ar gyfer y flwyddyn 2018-2019.

Nodir manylion y taliadau hyn yn y ddolen ganlynol:

democracy.swansea.gov.uk/ieIssueDetails.aspx?IId=19283&PlanId=0&Opt=3

Cynigodd ddiwygiadau i argymhellion 3 a 4.

**Penderfynwyd**

1) Derbyn yr adroddiad diwygiedig am Adolygiad Blynyddol Taliadau Gofal Cymdeithasol gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol;

2) Cymhwyso cynnydd cyffredinol o 5-6% am holl daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol a chynnydd uwch na chwyddiant i daliadau gofal cartref;

3) Cyflwyno tâl ar gyfer gwasanaethau dydd i bobl hŷn ar ôl cynnal asesiadau ariannol ar gyfer holl ddefnyddwyr y gwasanaeth;

## 128. Adborth ar graffu cyn penderfynu ar y gyllideb flynyddol. (llafar)

Cyflwynodd y Cynghorydd C A Holley, Cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chraffu Cyllid, farn y panel mewn perthynas â chynigion y gyllideb.

**129. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2019/20-2021/22.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a manylodd ar y tybiaethau ariannu mawr ar gyfer y cyfnod, gan gynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd**

1) Argymell Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2019-2020 hyd at 2021-2022 i'r cyngor fel sail ar gyfer cynllunio ariannol y gwasanaethau yn y dyfodol.

**130. Cyllideb Refeniw 2018/19.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2018-2019. Roedd yn cynnwys manylion y canlynol:

- Monitro ariannol 2017-2018;
- Setliad cyllid llywodraeth leol 2018-2019;
- Y rhagolwg cyllidebol 2018-2019;
- Cynigion arbed penodol;
- Canlyniad yr ymgynghoriad ar y gyllideb;
- Goblygiadau staffio;
- Gofynion y cronfeydd wrth gefn;
- Gofyniad y gyllideb a threth y cyngor 2018-2019;
- Crynodeb o gynigion ariannu;
- Risgiau ac ansicrwydd.

Cyfeiriodd Swyddog Adran 151 at wall argraffyddol ar dudalen 184. Dylid newid ‘Gwasanaeth Cerdd Gorllewin Morgannwg’ i ‘Gwasanaeth Cerdd Abertawe’.

Cynigodd Arweinydd y Cyngor, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes ac Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes y diwygiadau canlynol:

| | £ | £ |
|---|---|---|
| **Newidiadau pellach i gynigion o ganlyniad i ymatebion ymgynghori** | | |
| Hepgor - Adnoddau – Adolygu ariannu cynrychiolwyr undebau | 72,000 | |
| Addysg – Adolygiad Corfforaethol o amodau a thelerau – Taliadau parcio staff ysgolion | 150,000 | |
| Gohirio rhoi rhan ar waith – Gwasanaethau i Oedolion – Polisi Codi Tâl | 250,000 | |
| | 472,000 | |
| **Ariennir fel a ganlyn:** | | |
| Lleihau’r gronfa wrth gefn i £3.45m | | 472,000 |

**Penderfynwyd:**

1) Ystyried canlyniad yr ymarfer ymgynghori ffurfiol a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r cynigion cyllidebol yn Atodiad D yr adroddiad yn ogystal â'r sefyllfa o ran cyllidebau dirprwyedig fel a nodwyd yn Adran 4.10 yr adroddiad;

2) Nodi'r bwlch presennol mewn adnoddau yn Adran 4.5 yr adroddiad ac, yn unol â'r camau gweithredu posib a nodwyd yn Adrannau 9 a 10 yr adroddiad, gytuno ar gamau gweithredu i gyflawni Cyllideb Refeniw wedi'i mantoli ar gyfer 2018-2019.

3) Yn ogystal ag adolygiad o gynigion arbed presennol, bydd angen i'r Cabinet:

   a) Adolygu a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn a argymhellir yn yr adroddiad hwn;

   b) Cytuno ar lefel treth y cyngor ar gyfer 2018/19 i'w argymell i'r cyngor;

4) Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd, mae'r Cabinet yn argymell y canlynol i'r cyngor am gymeradwyaeth:

   a) Cyllideb Refeniw ar gyfer 2018-2019;

   b) Gofyniad y gyllideb ac ardoll treth y cyngor ar gyfer 2018-2019.

**131. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2018/19-2021/22.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2017-2018 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2018-2019 i 2021-2022 (2023-2024 ar gyfer ysgolion Band B).

**Penderfynwyd:**

1) Argymell y Gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2017-2018 a Chyllideb Cyfalaf ar gyfer 2018-2019, fel a nodwyd yn Atodiadau A, B, C, Ch, D a Dd yr adroddiad, i'r cyngor eu cymeradwyo.

**132. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Cyllideb Refeniw 2018/19.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar y cyd a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2018-2019 a chynnydd rhent i eiddo o fewn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**Penderfynwyd** argymell y cynigion cyllidebol canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cynyddu taliadau rhent yn unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru fel y nodwyd yn Adran 3 yr adroddiad;

2) Cymeradwyo ffïoedd, taliadau a lwfansau fel yr amlinellir yn Adran 3 yr adroddiad;

3) Cymeradwyo'r cynigion cyllideb refeniw fel y nodwyd yn Adran 3 yr adroddiad.

**133. Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2018/19-2021/22.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar y cyd a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2017-2018 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2018-2019 a 2020-2021.

**Penderfynwyd** argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2017-2018;

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2018-2019 a 2020-2021;

3) Lle caiff cynlluniau unigol a ddangosir yn Atodiad B yr adroddiad eu rhaglennu dros y cyfnod o 3 blynedd, caiff y rhain eu dilyn a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y blynyddoedd dilynol.

**134. Adborth craffu cyn penderfyniad - Trosglwyddo rheolaeth o randiroedd o Ddinas a Sir Abertawe i Gymdeithasau Rheoli. (llafar)**

Cyflwynodd y Cynghorydd M A Jones, Cynullydd y Panel Craffu, farn y panel mewn perthynas â throsglwyddo rheolaeth o randiroedd o Ddinas a Sir Abertawe i Gymdeithasau Rheoli.

**135. Trosglwyddo rheolaeth o randiroedd o Ddinas a Sir Abertawe i Gymdeithasau Rheoli**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i drosglwyddo rheolaeth a chyfrifoldebau gweithredol ar gyfer rhandiroedd o Ddinas a Sir Abertawe i Gymdeithasau Aelodau Rhandiroedd.

**Penderfynwyd:**

1) Awdurdodi trosglwyddo safleoedd rhandiroedd presennol i Gymdeithasau Aelodau gyda chyfrifoldeb rheoli llawn;

2) Lle nad oes diddordeb gan ddeiliaid rhandiroedd presennol i sefydlu Cymdeithas, dylai'r cyngor fynd ati i geisio trefniad â chyrff eraill i gymryd cyfrifoldeb rheoli llawn.

**136. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel y'u hargymhellwyd gan y Prif Swyddog Addysg, ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Pontarddulais | Y Cyng. Kevin Griffiths |

**137. Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 Grant y Gronfa Drafnidiaeth Leol 2017/18**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd adroddiad a oedd yn cadarnhau'r cais am grant gan y Gronfa Drafnidiaeth Leol ac yn ceisio cymeradwyaeth i wario ar y cynlluniau a'r prosiectau arfaethedig yn 2017-2018.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynlluniau'r Gronfa Drafnidiaeth Leol ynghyd â'u goblygiadau ariannol.

**138. Adborth craffu cyn penderfyniad - Priffyrdd a chludiant comisiynu adolygiad. (llafar)**

Cyflwynodd y Cynghorydd C A Holley, Cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chraffu Cyllid, y byddai angen rhoi ei adborth mewn sesiwn gaeëdig.

**139. Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Swesiwn Gaeedig)**

**140. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Adolygiad Comisiynu Priffyrdd a Chludiant (llafar)**

Cyflwynodd y Cynghorydd C A Holley, Cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chraffu Cyllid, farn y panel mewn perthynas â throsglwyddo rheolaeth o randiroedd o Ddinas a Sir Abertawe i Gymdeithasau Rheoli.

**141. Priffyrdd a chludiant comisiynu adolygiad.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd adroddiad, a oedd yn dangos yr atodiadau cyfrinachol yn Adroddiad Comisiynu Priffyrdd a Chludiant.

## 142. Sesiwn Agored

**Penderfynwyd** y dylai'r Cabinet ddychwelyd i sesiwn agored a dylid gofyn i'r cyhoedd ddychwelyd.

**(Sesiwn Agored)**

## 143. Priffyrdd a chludiant comisiynu adolygiad

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd adroddiad a oedd yn amlinellu canfyddiadau Adolygiad Comisiynu Priffyrdd a Chludiant a rhoddwyd y diweddaraf am gynnydd.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r model gweithredu argymelledig;

2) Cymeradwyo cynnydd ar ddatblygu'r ymagwedd strategol tuag at gludiant;

3) Nodi'r cynnydd ar gyflawni arbedion ariannol.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.47pm

**Cyhoeddwyd ar: 16 Chwefror 2018**

**Cadeirydd**